

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 11

Yn rhad ac am ddim

Chwefror 2022



Plas Bodwigiad

Rholiau Selsig a Gwin Cynnes

gan Rob Evans

Dw i'n hoff iawn o ddarllen llyfrau Cymraeg ac mae llawer ar gael, byddech yn synnu faint o awduron sydd yn ysgrifennu yn Gymraeg yng Nghymru. Un o'r pethau dw i'n mwynhau yw bod yn rhan fwyaf ohonyn nhw mae'r stori wedi ei leoli yn ein Cymru fach ni! Yn aml iawn mae'r lleoliad dan ffug enw ond mae'n hawdd adnabod yr ardal. Rhai blynyddoedd yn ôl nes i brynu llyfr mewn siop elusen am 25p, llyfr o'r enw Brychan Dir. Lleoliad y stori oedd pentref Penderyn a'r cyfnod oedd y rhyfel cartref 1642-1651. Roedd y Brenin Charles 1af wedi bod yn gwario gormod o arian wrth fynd i ryfela ac wedi bod yn gwerthu tir comin i godi arian. Roedd hyn yn golygu bod y bobl gyffredin yn colli tiroedd ble roedd eu hanifeiliaid yn gallu pori. O achos hyn i gyd roedd pethau'n wael rhwng y Senedd a'r Brenin ac yn y diwedd roedd rhyfel gartref yn anochel. Roedd rhai pobl yn cefnogi'r brenin tra bod eraill yn teimlo mai fo

ei hun oedd y broblem. Roedd anghytuno rhwng aelodau o'r un teuluoedd. Cyfnod anodd iawn.

Mae'r stori'n dechrau yn ardal Penderyn a'r fyddigion ym Mhlas Bodwigiad oedd brif gymeriadau'r llyfr. Y teulu oedd yn berchen y tir a'r ffermydd o gwmpas a'r tenantiaid yn talu rhent. Roedd parch tuag at y teulu a'r ddwy ochr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd dau dafarn yn y pentref, ac maen nhw dal yna. Mae'r eglwys yn rhan o'r stori hefyd ac, wrth gwrs mae'r eglwys yn dal yna. Rhan o'r mwynhad wrth ddarllen y stori oedd fy mod yn gallu creu llun go dda yn fy mhen o'r lleoliad wrth i mi ddarllen.

Ond mae rhai blynyddoedd wedi mynd ers i mi ddarllen y llyfr ac yn ôl ym mis Rhagfyr roedd taith Cymdeithas Edward Llwyd yn yr ardal. Roeddwn i eisiau mynd ar y daith achos fy mod i wedi bod trwy'r pentref gymaint o weithiau ar y ffordd i rywle arall ac yn awyddus i gael y cyfle o grwydro yn yr ardal. Ces i lawer mwy o bleser nag o'n i'n disgwyl ac roedd y

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

plerer mwyaf ar gael i mi dyddiau ar ôl y daith. Ond dw i'n mynd yn rhy gyflym i chi rŵan felly gadewch i mi sôn am y daith.

Roedd hi'n ddiwrnod oer ym mis Rhagfyr a naw ohonom ni wedi casglu tu allan i neuadd pentref Penderyn, ein harweinydd oedd Gwyn Morgan. Roedd y daith yn mynd â ni ar lwybr trwy hen chwarel mewn coedlan tu ôl i'r neuadd ac roedd plant yr ysgol wedi bod yn brysur yn gosod rhes o gerrig ar ddwy ochr y llwybr - doedd dim modd i ni fynd ar goll! Cyrraedd y lôn wedyn i fynd â ni fyny at eglwys y pentref a'r fynwent yn llawn o gerrig beddau ag enwau Cymraeg, glamp o hen reithordy gyferbyn mewn dwylo preifat ac yn cael ei adnewyddu'n raddol. Tu ôl i'r eglwys mae Moel Penderyn i'w weld yn eithaf uchel uwch lefel y môr ond gan fod y pentref yn uchel hefyd doedd y foel ddim yn edrych yn rhy heriol.

Dilyn hen ffordd y porthmyn er mwyn cyrraedd ochr draw'r foel a'r gwynt yn ein herbyn, gwynt cryf ac oer a'r mwyaf uchel oeddem ni'n cerdded y cryfach a'r oerach oedd y gwynt. Roedd yn amhosib clywed felly doedd dim pwynt trio siarad, dim ond pen i lawr a chadw i fynd. Wrth gyrraedd pen y ffordd roedden ni'n edrych i lawr ar Gwm Nedd ond doedd dim awydd i aros yna mewn edmygedd. Wrth droi i ddringo at ben Moel Penderyn roedd y gwynt tu ôl i ni ac yn ein chwythu efo caredigrwydd yr holl ffordd. Roedden ni ar ben y byd, yn edrych i lawr ar y pentref a'r chwarel enfawr sydd tu ôl, yn y pellter roedd Pen y Fan a'r holl gopaon.



Dyna'r dringo drosodd ac ar ddiwrnod llai gwyntog dyma fydd lle delfrydol i eistedd lawr a chael ein brechdanau ond nad oedd un ohonom eisiau rhewi felly i lawr â ni at lwybr bydd yn mynd â ni at Sgwd yr Eira ond nid heddiw. Cyrraedd y pentref unwaith eto a heb i ni wybod

roedd trîr arall i ni, roedd Gwyn yn ein harwain ar ffordd droellog tan i ni gyrraedd plas ysblennydd - Plas Bodwigiad. Ac yn sydyn dyma fi yn cofio'r llyfr, roeddwn i wedi darllen am y lle yma, am y teulu a'r digwyddiadau. Ond doedd dim amser i mi drïo ail gofio popeth achos roedd meistres y tŷ yna i'n croesawu ni efo llond plât mawr o roliau selsig a gwydrau o win cynnes. Wel am groeso!

Roedden ni'n cael yr hanes o adnewyddu'r tŷ a'r ffaith bod nhw wedi darganfod hen le tân yn y lolfa ac, oedd, roedd rhaid i ni fynd i mewn i'w weld. Roedd y lolfa yn enfawr ac er bod drws y tŷ'n hollol agored roedd yr ystafell yn glud. Lle tân effeithiol dros ben.

Mae rhai o deithiau'r Gymdeithas yn aros yn y cof a'r daith yma oedd, heb amheuaeth, y gorau.

Ond dros yr wythnosau ers hynny dw i wedi bod yn ail-ddarllen y llyfr 'Brychan Dir' a chael llawer iawn mwy o fwynhad ar ôl gweld y tŷ a'r lleoliadau eraill a oedd wedi chwarae rhan fawr yn y stori. Erbyn hyn dw i'n gallu deall y teimladau roedd y gwahanol deuluoedd yn dioddef o achos y rhyfel cartref. Mewn mis roeddwn i'n dysgu mwy am y rhesymau tu ôl i'r rhyfel pan welais y ffilm 'Cromwell' ar y teledu.

Roedd y ffilm yn gwneud pethau'n gliriach byth ac, unwaith eto, dw i'n edifaru nad oeddwn wedi ymuno â'r Gymdeithas yn llawer gynt.

A mawr ddiolch i Gwyn am drefnu taith mor arbennig!

Beth am ymuno â ni rhywbryd - bydd croeso mawr i chi!

Ydych chi wedi meddwl beth fydddech chi'n wneud pan mae eich cwrs wedi dod i ben?

Efallai nawr yw'r amser i chi ac aelodau eraill yn eich dosbarth ddod at eich gilydd i ymarfer siarad tu allan i'ch dosbarth.

Oherwydd Omicron mae'n debyg bydd rhaid i chi wneud hynny ar Zoom ond unwaith mae pethau'n gwella bydddech yn barod i gyfarfod mewn caffi. Wedyn bydd y Cymry Cymraeg yn dod i'ch adnabod chi.

Peidiwch â gwastraffu'r holl amser dach chi wedi bod yn dysgu!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Croeso yn ôl pêl droed. Rhan 1

gan Anne Lloyd



Dw i'n cofio'r diwrnod yn dda - y seithfed o fis Mawrth 2020. Es i ar gwrs Sadwrn Siarad ym Mhrifysgol Abertawe, oedd yn bleserus iawn. Dim ond tri roedd yn ein grŵp ni, cyfle i mi fagu fy hyder i ymarfer siarad Cymraeg am unwaith! Sa i'n hoff iawn o gynulleidfa! Roedd Cofid newydd dangos ei grafangau a heblaw am gyfarch cyd-ddisgybl blaenorol efo 'clonc penelin', roedd popeth fel arfer. Ar ôl cinio, ymunon ni â grwpiau eraill ar gyfer cwis. Dw i'n mwynhau cwisiau, ond mae cof ofnadwy 'da fi'r dyddiau 'ma - rhwystredig iawn. Henaint ni ddaw ei hunan. Roedd fy nhîm yn gwneud yn eithaf da, ond yn anffodus, roedd rhaid i fi adael yn gynnar. Roedd y Swans (dw i'n ffaelu eu galw nhw 'Yr Elyrch') yn chwarae gartref yn erbyn fy nhîm arall, West Brom. Allwn i ddim colli!

Ond roedd y gêm yn siomedig - gêm gyfartal o-o. Byddwn i wedi bod yn well fy myd yn aros yn y cwis! Ychydig a gwyddwn taw honna byddai'r gêm fyw olaf yn y stadiwm y byddwn i'n ei gweld am amser hir, bron â deunaw mis wedyn. Dilynodd y cyfnod clo ychydig o wythnosau ar ôl y gêm, a newidiodd ein bywydau am fisoedd di-rif. Yn amlwg doedd pêl-droed ddim yn bwysig!


Wrth i'r cyfyngiadau llacio, ail-ddechreuodd y tymor pêl droed ar yr ugeinfed o fis Mehefin 2020, ond heb gefnogwyr yn y stadia. Roedd e'n adeg lwyddiannus i'r Swans, yn dechrau gyda buddugoliaeth o-3 ym Middlesbrough. Fel deiliad tocyn tymor, gallwn i wyllo'r gemau yn fyw ar y we - yn well na dim byd sbo. Des i'n gyfarwydd â'r ddolen yn rhewi neu lusgo yn ôl. Dysgais i'n gynnar roi fy ffôn yn ddistaw, achos ro'n i'n cael neges ar 'ap' y Swans cyn i fi weld gôl

neu ddigwyddiad arall ar y gliniadur!! Wedyn, dysgais i droi 'dirgrynu' bant hefyd. Roedd e fel gwylio tîm gwahanol yn ail ran y tymor, ac am syndod - cyrhaeddodd y Swans y 'play-offs'.

Roedd angen gwyrrth arnyn nhw yn y gêm gynghrair olaf yn Reading, a heb ddoethion neu seren yn y dwyrain, cyrhaeddodd y wyrth, pan sgoriodd y Swans eu pedwaredd gôl yn yr unfed munud ar nawdeg. Ond rhedodd eu lwc nhw allan yn y rownd gynderfynol yn erbyn Brentford - ar ôl ennill y gêm gyntaf yn y Liberty, collon nhw yn Griffin Park, lle chwaraeodd Brentford eu gêm olaf cyn symud i stadiwm newydd. (Ffaith ddiddorol - Griffin Park oedd yr unig stadiwm gyda thafarn ar bob cornel tu allan.) Efallai y caiff Y Swans dipyn bach mwy o lwc y tymor nesaf, a bydd y cefnogwyr yn ôl yn y stadia. Cawn ni weld yn rhan dau!

Adolygiad Ffilm

gan Jan Hill-Tout



Dros y Nadolig gwelais i ddwy ffilm newydd i fi sef 'The Power of the Dog' (Netflix) a 'Martha, Jac a Sianco' (S4C).

Mae 'Power of the Dog' yn seiliedig ar nofel o'r un enw gan Thomas Savage (1967) a stori am ddau frawd cyfoethog sydd yn ffermio gwartheg ym Montana ym 1925. Cymeron nhw'r ransh drosodd o'u rhieni a oedd yn dal yn fyw ond bellach ddim yn byw ar y ransh. Mae'r tŷ fferm ei hun fel plasty gyda phob math o gyfleusterau a gweision a morwynion i wneud y gwaith tŷ a choginio. Mae'n amlwg bod un o'r brodyr, Phil (Benedict Cumberbatch) yn hoffi'r bywyd tu fas ac yn gweithio gyda'r gweision fferm, ond mae'r brawd arall George, (Jesse Plemons) yn chwarae rhan y ranshwr bonheddig.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pan mae George yn cwrdd â Rose (Kirsten Dunst) ac yn ei gwahodd hi, a'i mab, i fyw ar y ransh, mae'n rhaid i'r berthynas rhwng y brodyr newid. Mae cyfrinachau hanesyddol yn dod i'r wyneb, a phethau annisgwyl yn digwydd. Mae'r golygfeydd yn y ffilm yn syfrdanol, cafodd e'i ffilmio yn Seland Newydd, ac mae'r trac sain yn atgofus hefyd. Do'n i ddim yn siŵr a'r ddechrau'r ffilm os byddwn i'n ei fwynhau ond yn fuan cymerodd hi fy holl sylw a gallwn i'w argymhell i chi.

Mae 'Martha, Jac a Sianco' yn seiliedig ar nofel gan Caryl Lewis (2004) ac yn adrodd hanes un chwaer a dau frawd ar ôl marwolaeth eu Mami. Maen nhw'n byw ar fferm Graig Ddu yn ne-orllewin Cymru a dim ond nhw sy'n gweithio ar y fferm ac yn gwneud pob dim. Oherwydd ewyllys Mami maen nhw'n glwm â'i gilydd ar y fferm ac er bod hi wedi marw mae ei dylanwad dros bopeth yn dal yna. Mae cariad Jac (Carol Harrison) yn dod i fyw ar y fferm ac mae'n achosi problemau i Martha (Sharon Morgan), Jac (Ifan Huw Dafydd) a Sianco (Geraint Lewis). O dipyn i beth mae cyfrinachau a chelwyddau yn ymddangos a gallech chi weld sut mae eu hen hanes nhw dal yn fyw yn y presennol. Mae'r llyfr 'Martha, Jac a Sianco' yn dangos pa mor galed yw gwaith y ffarmwr, yn aelod o'r gymuned ac ar yr un pryd gyda'r angen i gael hwyl hefyd. Roedd y ffilm yn hyfryd iawn, unwaith eto gyda golygfeydd hardd a thrac sain ddiddorol.

Er bod y ffilmiau yma yn seiliedig ar ffyrdd o fyw gwahanol i'w gilydd, mae cymaint o elfennau cyffredin rhwng y ddau. Wrth gwrs mae'r ddau'n disgrifio bywydau pobl sy'n gweithio ar y tir ac yn gofalu am anifeiliaid, hefyd yn dangos pa mor hyfryd yw cefn gwlad. Maen nhw'n pwysleisio'r angen dynol am gariad a diogelwch, ac yr effaith mae bwlio yn cael ar bobl. Ar ben popeth, beth bynnag yw pwysigrwydd perthnasau teuluol mae dylanwad cyfrinachau hanesyddol yn galluogi hyd yn oed pobl ddi-nod i newid pethau.

Teulu

gan Claire Boot

"Oes teulu gyda chi?"

Cwestiwn syml, ond doedd Sandra erioed yn gwybod sut i ateb. Roedd hi'n teimlo'n dwp. Dim ond sgwrs ymarfer mewn dosbarth Cymraeg yw hi, nid cwestiwn mawr fywyd.

"Oes teulu gyda chi?" gofynnodd Richard eto.

Roedd Sandra wedi ceisio. Roedd hi wedi gofyn i'r tiwtor, Rhiannon, am sut i ddweud 'cousin' yn Gymraeg ond doedd hi ddim yn gallu cofio'r gair.

"Mae cyf – cef – mae – cyfn –"

Esgob! Roedd hi'n genfigennus o bobl sy'n gallu ateb yn hawdd.

"Mae dau o blant gyda fi," meddai Jo, dysgwr arall.

Mae'n ddoniol, meddylodd Sandra. Yn Saesneg, mae plant yn golygu planhigion. Mae llawer o blanhigion yn fy fflat i. Ond dw i ddim yn gallu dweud 'Mae planhigion gyda fi'. Byddan nhw'n meddwl fy mod i'n wallgof!

"Wyt ti'n iawn?" gofynnodd Richard, gan geisio aros yn amyneddgar.

"Ydw, sori."

Edrychodd Sandra ar y cwestiwn yn llyfr y cwrs. Roedd hi'n hoffi'r cwestiwn yn Gymraeg. Mae'r Saesneg yn gofyn 'Dych chi'n meddu ar deulu?' ond mae'r Gymraeg yn gofyn "Oes teulu gyda chi?"

Oes, wrth gwrs – Mam, Tad, y babi bach. Doedd hi ddim yn meddu arnyn nhw. Ro'n nhw wedi mynd. Ond roedden nhw gyda hi bob amser, yn ei chalon hi.

"Oes," gwenodd Sandra ar Richard. "Mae teulu gyda fi."

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda?

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau.

Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddylwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhwng hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn, felly, peidiwch â phoeni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Beryl Hill

Beryl ydw i a dw i'n byw yn sir Benfro. Mae gen i ddau o blant, Bethan ac Alun, maen nhw'n mynd i'r ysgol Cymraeg. Mae gen i wŷr hefyd, ei enw yw Bryn. Mae o'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Dw i'n dysgu Cymraeg achos dw i eisio helpu'r plant, ond nhw sydd yn helpu fi.

Dw i'n hoffi cerdded ar lan y môr ac yn hoffi gweld tonnau mawr.

Mae gen i gi sydd yn hoffi rhedeg yn y môr.

Yn wreiddiol roeddwn i'n byw yn Sir Caerwrangon ond dw i wedi byw yng Nghymru am bymtheg mlynedd nawr.

Tonnau mawr - big waves

Sir Caerwrangon - Worcestershire

James Barton

James ydw i, dw i'n byw ger Aberystwyth a dw i'n hoffi cerdded yn y cefn gwlad efo grŵp leol.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg am flwyddyn ac yn hoffi siarad Cymraeg efo pobl. Dw i ddim yn deall popeth ond mae pawb yn garedig iawn.

Mae gen i wraig o'r enw Jenny a dau fab, Paul a Simon. Maen nhw'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Dw i'n gobeithio bydd Jenny yn dysgu Cymraeg hefyd.

Dw i'n hoffi darllen, mae'n anodd ond mae'n ffordd dda i ddysgu geiriau newydd.

Trefor Ellis

Fy enw i yw Trefor a dw i'n byw yng Nghasgwent. Dw i'n hoffi seiclo a gwylio adar. Mae casgwent yn ardal diddorol efo'r castell a'r bont dros yr Hafren.

Dw i'n gweithio fel trydanwr ac un diwrnod dw i'n gobeithio cael fy musnes fy hun.

Mae fy ngwraig yn athrawes ac, ar hyn o bryd does dim plant gennym ni.

Dan ni'n hoffi mynd ar yr afon Wysg mewn canŵ. Mae'n ffordd dda i ymlacio a gweld bywyd gwyllt.

Trydanwr - electrician

Gobeithio - to hope

Afon Wysg - the Usk river

Sonia Grange

Sonia ydw i, dw i'n byw ar Ynys Môn. Mae gen i fab yn yr ysgol a gŵr sydd yn siarad Cymraeg. Dw i wedi bod yn dysgu am chwe mis.

Dw i'n hoffi byw ar ynys Môn a dw i'n gweld yr eira ar mynyddoedd Eryri o'r ffenest yn y gegin.

Dw i'n trio darllen llyfrau ond mae'n anodd, mae fy ngŵr Dafydd yn dweud 'dyfal donc!'

(That means "keep at it!")

Yes, 'Dyfal donc â dur y garreg' that means if you keep hammering the stone you will break it. So, never give up. When you think that it isn't working, that just means you have to leave it for a while. So, dyfal donc!

Can I say thank you very much to the four of you for contributing. I hope you are enjoying having your work published in the Wennol. This was just the sort of thing that I wanted.

But once one issue is finished its time to think about the next. So now you all know what I want and you can see how easy it is, how about giving it a go.

Just write something short about yourself and don't worry about mistakes - I shall be here to correct them!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Beth fydddech chi'n gwneud pan mae eich dosbarth Cymraeg yn dod i ben?

Ar ôl cyfnod hir o astudio ac wedi cyrraedd safon digon uchel i gael sgwrs efo'ch cyd-ddysgwyr bydd yn siomedig os nad ydych yn cael cyfle i fynd ymlaen efo'ch iaith. Mae'n anodd torri mewn i'r byd Cymraeg, does dim drws amlwg i chi agor.

Does dim ateb syml ond un peth allwch chi wneud yw creu grŵp yn cynnwys eich cyd-ddysgwyr, ac wrth gwrs does dim rhaid i chi aros tan ddiwedd eich cwrs. Gwnewch o heddiw! Gofynnwch i'ch tiwtor am amser ar ddiwedd y dosbarth i grybwyll y syniad i'r dosbarth.

Mae'n rhaid i'ch cyfarfodydd bod mewn lle gweledol, yr holl bwynt yw i chi cael eich gweld a'ch clywed. Cyn bo hir mi fydd rhywun yn dod i siarad â chi ac efallai yn rhoi gwahoddiad i chi ymuno â chymdeithas Cymraeg lleol. Mae pethau fel hyn yn digwydd ac yn sydyn mae'ch byd yn newid. Dyma beth ddigwyddodd ym mhentref Southgate ar Gŵyr. Roedd y grŵp lleol wedi bod yn cyfarfod mewn caffi lleol bob dydd Mawrth. Roedd pawb yn credu nad oedd neb yn siarad Cymraeg yn Southgate tan i'r grŵp ddechrau cyfarfod. Erbyn hyn mae pobl yn cael eu clywed yn siarad Cymraeg tu allan yn y pentref. Pan mae Cymry Cymraeg yn eich clywed yn siarad yr iaith mi fydden nhw'n dod atoch chi a gofyn am eich hanes! Dyna sut ydan ni!

Hyd yn oed os oes cymdeithasau Cymraeg yn eich ardal mae'n cymryd dipyn o ddewrder i ymuno ag un ar eich pen eich hunan, ond fel grŵp – yn llawer haws.

Os dach chi'n ddigon lwcus bod gangen o Ferched Y Wawr yn eich ardal neu fod Cymdeithas Edward Llwyd yn cael un o'u teithiau yn lleol peidiwch â cholli'r cyfle.

Mae'r byd Cymraeg yn werth ei gyrraedd – dyna eich gwobr am weithio mor galed!

What will you do when your Welsh course comes to an end?

After a long period of studying and having reached a standard high enough to have a conversation with your fellow learners it would be a shame if you didn't have the chance to carry on with the language. It's not easy to break into the Welsh world, there is no obvious door.

There isn't an easy answer but one thing you can do is to create a group with your fellow learners and you don't have to wait until the end of the course. Do it now! Ask your tutor for some time at the end of the class to share this idea with the others.

Your meetings should take place in full view, the whole point is for you to be seen and heard. Before long someone will come and talk to you and maybe invite you to their Welsh society. These things happen and suddenly your world is changed. This is what happened in the village of Southgate on Gower. The local group had been meeting every Tuesday in a local café. Everyone was under the impression that there were no Welsh speakers here until the group started meeting. And by now Welsh conversations can be heard around the village. When Welsh speakers hear you speaking Welsh they'll come and talk to you and ask all about you!

That's what we are like!

Even if there are Welsh societies in your area it takes a bit of courage to join them on your own but as a group – much easier!

If you are lucky enough to have a branch of Merched y Wawr (for the ladies) in your area or Cymdeithas Edward Llwyd have arranged a walk locally – don't miss the chance.

The Welsh world is worth reaching and it is your prize for working so hard!

Your welcome to the Welsh world is not just in
the hillsides and in the vales.
It is everywhere. Make sure you find it!
Our Welsh language needs your presence!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

The Road to Fluency

gan Rob Evans

Every journey starts with the first step and each step you take gets you closer to your destination. Learning a language is a journey and it can be just as exciting as any other journey you care to take. The excitement you feel will be in the realisation that you have made progress and you mustn't dampen that excitement by constantly thinking about the length of the journey. Learn to enjoy the journey by regularly reviewing how much you have learned, if that review is a visible one then your progress will be plain to see and you will develop enthusiasm to keep taking each important step.

So how can you make your progress visible?

That's easy, invest in a diary and after each lesson write down what you have learned. As a pure beginner your first entry will be something like – “John ydw i” or “Jane ydw i” “Dw i'n byw yn Abertawe.” If that's written in your diary then you can at any time remind yourself at what stage you were after your first lesson and it is your progress from that first point that is important. Using the language in some way throughout your journey is important too and do you know what? You are doing just that by writing in your diary – in Welsh! The process of learning has become a practical one rather than a theoretical one!

So when should you start reading? You may be amazed to know that there are no rules, you can start reading at any time! So, what's stopping you? I know – it's that great big wall. Where can I find a book at my level? A book that has things like “Jane ydw i, dw i'n byw yn Abertawe. Dw i'n hoffi coffi. Mae gen i dri o blant.”

Hang on! Haven't you been writing stuff in your diary? And when I say 'you' I mean 'you plural'. Together we can create pages in Y

Wennol for others to read and all of them at your level. Suddenly we have something to share with others and the level will be always developing as you progress in your studies. Something for everyone.

Shall I tell you something else? There are four elements in learning a language:

- 1) Reading and understanding
- 2) Writing and being understood
- 3) Listening and understanding
- 4) Speaking and being understood

Together we can provide opportunities for everyone to do the first two and gradually we can show that reading is not difficult, nor is writing. It just needs to be at the right level and each level is a rung on the ladder.

And the only way is up!

Look at the contributions on page 5. I had to twist a few arms to get those, but you must admit that none of them are beyond you and I will make sure that everything is correct.

Using the language is the best way to learn so why not give it a go - you could have your story in the March issue!

And here is a lovely story from Bryan Roberts.

Byth yn Rhy Hwyr

gan Bryan Roberts

Ysgrifennais y darn hwn er mwyn profi nad ydi hi byth yn rhy hwyr i ddysgu rhywbeth newydd os dach ch'n ddigon penderfynol i lwyddo, ac nid ydy ddysgu iaith yn wahanol o gwbl. Hefyd, nid oes unrhyw angen i fod yn ifainc i'w wneud!

Mae rhaid i mi esbonio wrth ddweud hynny.

Cefais fy ngeni, a fy magu yng Nghymru, cyn symud i Loegr yn fy ugeiniau efo fy ngwaith. Yn

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda?

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau.

Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhwch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn, felly, peidiwch â phoeni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

anffodus, er bod fy nhad, ei frawd a'i chwaer, fy nhaid a'i deulu i gyd yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, siaradodd neb gyda fi yn yr iaith, oherwydd Saesnes oedd fy mam.

Hefyd, ar y pryd, roedd Cymraeg yn cael ei ystyried fel iaith yr aelwyd yn unig, oherwydd, medden nhw, roedd 'na angen siarad Saesneg er mwyn symud ymlaen yn y byd. Wrth gwrs, nad oedd yr agwedd hon yn unrhyw beth newydd, mae hi wedi bod o gwmpas ers dyddiau Harri'r Wythfed!

Symudwch ymlaen hanner cant o flynyddoedd os gwelwch yn dda.

Ar ôl gorffen ymchwilio hanes fy nheulu, roeddwn i'n chwilio am rywbeth newydd a diddorol i'w wneud, heb lwyddiant. Ar ôl dwy flynedd a hanner heb ddiddordeb newydd, roedd fy ymennydd wedi dechrau arafu.

Yn haf 2015, roedd fy ngwraig a finnau ar ein gwyliau yn agos i Lanbrynmair yn Swydd Drefaldwyn ac, un ddiwrnod, aethon ni am dro yn y brynau gerllaw. Roedd yr awyr yn las, roedd yr adar yn canu ac roedd popeth yn dda yn ein byd, ond, yn sydyn, newidiodd fy mywyd am byth. Heb unrhyw ymdrech ar fy rhan i, dechreuais gofio geiriau Cymraeg.

Doeddwn i ddim yn gwybod o le daethon nhw, ond peth rhyfedd oedd hi, oherwydd roeddwn i'n gwybod beth oedd rai ohonyn nhw'n ei olygu, ond roedd y lleill yn anadnabyddus i mi.

Beth am i mi drïo dysgu Cymraeg felly? "Bysai hynny'n llenwi fy amser rhydd am flynyddoedd" medda i. Hwre! Roeddwn i wedi dod o hyd i beth i'w wneud nesaf!

Dechreuais efo "Say Something in Welsh", ond, ar ôl gorffen y tri chwrs, penderfynais ddechrau cwrs ffurfiol, a dyna le ydw i, chwe blynedd yn hwyrach, ar safon Uwch 2.


O'r diwedd rydw i wedi cyrraedd y pwnc o'r erthygl yma.

Pan ddechreuais i fy nhaith i fod yn siaradwr Cymraeg, o'n i'n saith deg wyth mlynedd oed a rŵan, 'dw i'n wyth deg pump, a fedrwn i ddweud bod y proses wedi cadw fy ymennydd yn glir a fy ngof yn dda. Hefyd mae gen i ffrindiau newydd, a fedrwn i brofi llenyddiaeth a cherddoriaeth yn y Gymraeg, er fy mod i'n dal yn byw yn Lloegr. Diolch o galon i'r rhyngwyd!

Felly, os dach chi'n nabod unrhyw un, yn enwedig unrhyw un a thyfodd i fyny yng Nghymru, heb yr iaith, ac yn difaru, ond yn meddwl eu bod nhw'n rhy hen i ddysgu rhywbeth newydd, anogwch nhw i ddechrau. Bydd yn dda am eu hiechyd meddwl o leiaf.



Blodau'r Flwyddyn Newydd gan Rob Evans



Melyn yr Yd

Roedd Goronwy Wyn, Llywydd Cymdeithas Edward Llwyd, wedi gosod her i ni yn y cyfarfod rhithiol ym mis Hydref. Yr her oedd i ni fynd allan i'r cefn gwlad yn ystod y chwe diwrnod gyntaf o fis Ionawr a nodi'r blodau oedden ni'n gweld, nid gweddillion blodau chwaith ond blodau yn eu harddwch.

Ar y cyntaf o fis Ionawr 2022 roedd hi'n ddiwrnod digon sych i ddechrau fy ngwaith ymchwil i ba blanhigion bydda i'n gweld yn blodeuo yn y chwe diwrnod cyntaf o'r flwyddyn. Gan roeddwn i braidd yn brysur efo ormod o bethau eraill penderfynais fynd bob yn ail ddiwrnod a hefyd cadw'r gwaith ymchwil tu fewn i ffiniau Gŵyr. Yn yr wythnosau yn arwain at y flwyddyn newydd roeddwn i wedi treulio amser yn mynd trwy Llyfr Natur Iolo ac roedd y profiad yn dweud wrthyf am beidio disgwyl gormod - dim ond rhestr o 11 oeddwn i'n gallu creu. Ond roeddwn i'n sicr o gael un.

Anelais am Benmaen a pharcio mewn lle tu ôl i'r eglwys. Cyn i mi adael y car roedd y planhigyn gyntaf ar fy rhestr - yr eithin. Diolch byth am yr eithin! Cerddais i fyny ochr Cefn Bryn a chofiais aros i edmygu'r olygfa tu ôl i mi llawer gwaith,

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

islaw roedd bae'r Tri Chlogwyn, y bae sydd wedi cael ei gyfrif fel un o'r harddaff yn y byd. Dw i mor ffodus mod i'n gallu mwynhau'r olygfa unrhyw amser trwy'r flwyddyn. Cyrraedd y pen a chroesi'r ffordd i edmygu moryd yr afon Lluchwr ar ochr ogleddol Penrhyn Gŵyr. Yn fy mhen mae llun o ddŵr yn byrlymu trwy greigiau calchfaen yn agos at Gastell Carreg Cennin a dyma'r un dŵr wedi cyrraedd y môr. A diolch i un o deithiau Cymdeithas Edward Llwyd am y darlun yna. Mae'n rhaid dweud fy mod wedi cael pleser ar y daith ac wedi mwynhau bod allan yn yr awyr iach ond er hynny, dim ond yr eithin oedd ar fy rhestr. Mae'n rhaid gwneud yn well y tro nesaf.

A dyma fi ar yr ail ddiwrnod ac yn crafu fy mhen ond gan fod i wedi cyfyngu fy hun i Benrhyn Gŵyr gwaeth i mi heb ddilyn fy nhrwyn yn y gobaith y byddaf yn cael syniadau. Heibio Penmaen mae lle i barcio ond a oes lle i mi? Oedd mi oedd lle i un bach ond wrth droi i mewn sylweddolais fod cyflwr y wyneb yn ofnadwy, tyllau mawr ym mhob man felly dod allan yn ofalus oedd y peth callach. Troi i fynd trwy Reynaldston wedyn ac roedd y lle parcio ar y pen yn llawn hefyd felly mynd ymlaen heibio Broad Pool. Ar ddiwrnod sych mae'n bosib parcio ar ochr y ffordd ond roedd gormod o bobl wedi trio yn barod. Ymlaen at Lanrhidian a dilyn y ffordd isel wrth ochr y morfa heli. Welais rywle i barcio a dechreuais gerdded ar hyd y trac, fy llygaid yn sganio'r ddwy ochr, digon o bethau lliwgar i'w weld ond nid blodau oedden nhw. Roedd hi'n mynd yn fwy mwdlyd ac yn y pendraw, gan fod dim byd i'w weld es i'n ôl yn ofalus at y car. Y lle nesaf oedd Penclawdd a digon o le i barcio. Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y morglawdd yn ddiweddar ac roedd blodau wedi cael eu plannu a dyma flodyn cyntaf y diwrnod - Melyn yr Yd. Cerdded wrth ochr y morfa wedyn a gweld tipyn o liw yn y pellter - llygad y dydd.

Ar y trydydd diwrnod y cynllun oedd cerdded o Southgate hyd at y clogwyn uwch ben Bae'r Tri Chlogwyn, parcio'r car ac ar y ffordd i gael tocyn roeddwn i'n sicr mod i wedi clywed teulu yn siarad Cymraeg. Ar y ffordd yn ôl es i'n agosach atyn nhw ac ia, mi oedden nhw'n siarad Cymraeg. Roedd rhaid cael sgwrs, Nain a Taid yn byw yn Abertawe a'r rhieni a'u plant yn byw yng Nghaerdydd - pob un yn siarad Cymraeg. Hyfryd!

Ac ymlaen at y daith olaf ond roedden ni wedi cael ormod o law yn ddiweddar a'r llwybrau'n fwdlyd dros ben ac i wneud pethau'n waeth roedd wyneb y llwybrau wedi dirywio'n ofnadwy. Dim ond yr eithin oedd i'w weld ond, arhoswch! Dyma dant y llew dewr iawn yn sefyll yn syth yn erbyn y gwynt oer, roedd o mewn blodau ond yn gyndyn i ddangos ei hun yn ei holl ysblander.

A dyna ni. Mae'n rhaid i mi ddweud nad ydw i'n gweld dim bai ar y planhigion i beidio mentro tu allan a doedd dim pryfed i'w weld yn chwilio am baill. Llond law oedd i'w gweld a gallwch chi ddweud dim ond yr eithin oedd yr un go iawn achos fflwec oedd y lleill efallai. Dw i'n clywed chi'n gofyn y cwestion "A oedd pwynt i hyn i gyd?" Cwestiwn da, a'r ateb yw "Oedd!" Dyn ni'n dysgu dim wrth gymryd pethau'n ganiataol. Mae'n rhaid i ni ofyn cwestiynau ac mae'n rhaid i ni chwilio am atebion, dyna sut dyn ni'n dysgu.

A hefyd, ar ôl i ni gael dwy flynedd o gyfyngiadau dyn ni gyd wedi dod i arfer â pheidio mynd allan ac mae peryg na fydden ni'n mentro gymaint ar ôl i'r cyfnod ofnadwy yma dod i ben. Mae'n dda cael rheswm.

A gawn ni obeithio bydd normalrwydd yn dychwelyd yn 2022?

Gobeithio wir!

I need your help!

I know that some of the articles in this newsletter are difficult to read and I am trying to have articles that suit everybody.

The most effective way for me to publish articles that suit you is, quite simply for you to write them.

This will benefit you in that I will go through everything and together we can produce an article that you can be proud of.

Using the language that you have learned so far is the best way to consolidate and move on to higher things.

Together we can do great things!

Why not have a go!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Yn yr Ysbyty Neithiwr

gan Judith Roberts

Yn dilyn damwain ddifrifol, treuliais sawl awr yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor.

Tra fy mod yn gorwedd yno yn gwrando ar y Gymraeg ac yn ymarfer fy sgiliau iaith, cefais weld pa mor gytûn y gall gweithle dwyieithog o'r fath fod. Cefais fy ysbrydoli gymaint gan fy mhrofiad - fel rhan o fy adferiad - ysgrifennais fy ngherdd gyntaf yn y Gymraeg.

Yn yr Ysbyty Neithiwr

Mae rhai yn dweud ei fod yn marw

Ac i ddim defnydd

Ond yn yr ysbyty neithiwr

Mae'n byw ac anadlu

Rhwng dyn ambiwlans a nyrs

A nyrs i glaf

A nyrs i nyrs

Ac i'r porthor

Ac yn ôl eto

Weithiau'n cyfuno'n hawdd

Ac yn naturiol gydag un arall

Gwehyddu ei hud o gwmpas

I leddfu a thawelu meddwl

I sgwrsio a jôc

Ac i hysbysu

A'i glywed o amgylch fy ngwely

Yn yr ysbyty neithiwr

Wnes i wybod bod y Gymraeg dal yn fyw

Sŵn hardd i'm clustiau

Mi wnaeth y gerdd yma ymddangos yn gyntaf yn Lingo Newydd mis Rhagfyr 2021 a dw i'n falch iawn o gael y cyfle o'i gynnwys yn Y Wennol. Cerdd hyfryd iawn ac mae'n dda dysgu bod yr iaith yn cael ei glywed yn naturiol yn Ysbyty Gwynedd.

Judith dw i'n siwr bod pob un o'r darllennwyr yn gobeithio eich bod chi yn holliach erbyn hyn.

Taliesin - Abertawe Shirley Valentine

gan Willy Russell

Mae'r ddrama wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Manon Eames.

Yr actores Shelley Rees sydd yn chwarae'r brif ran (hi oedd Stacey yn Pobl y Cwm).

Dw i'n sicr bydd y ddrama yma mor ddoniol â'r fersiwn Saesneg ac mae'n rhaid i ni gael rheswm i wenu ar ôl yr amser diflas dyn ni wedi cael dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mi ydan wedi colli'r Eisteddfod am ddwy flynedd erbyn hyn, colli'r cyfle i ni gyd bod mewn awyrgylch Gymraeg. Dyma rywbeth i'n cadw ni i fynd tan fis Awst.

Ffoniwch 01792 602060 am eich tocyn

£12 yr un os ydych yr un oed a fi!

Gobeithio eich gweld chi yna!

Rob Evans

Hanes Y Gymraeg

Y 19eg Ganrif - Rhan 1

gan Martin Jones

Ym 1801, roedd Cymru'n bennaf yn wlad wledig o hyd, ac ynddi dim ond ychydig o drefi bach. Roedd y boblogaeth yn 587,000, ac roedd y rhan fwyaf, sef 470,000, yn siarad y Gymraeg fel iaith bob dydd, gan gynnwys 410,000 a oedd yn uniaith Gymraeg. Merthyr Tudful, â'i weithfeydd haearn, oedd y dref fwyaf â 7,700 o drigolion, ac Abertawe, cartref y diwydiant copr, oedd yn ail â 6,100 o drigolion. Ond wrth i Gymru symud i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y Chwyldro Diwydiannol yn magu cyflymder, yn enwedig yn y gweithfeydd haearn. Yn fuan, cafodd heidiau o weithwyr amaethyddol Cymraeg (yn ogystal â rhai o Loegr ac Iwerddon) eu denu i ardaloedd diwydiannol i chwilio am fyd gwell.

Erbyn 1851, roedd poblogaeth Cymru wedi dyblu i 1,163,000, ac roedd y nifer o siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu i 780,000. Roedd poblogaeth Merthyr Tudful wedi cynyddu i 46,000. Ond, ar y llaw arall, roedd y ganran o'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

boblogaeth a oedd yn siarad Cymraeg wedi disgyn o 70 y cant ym 1801 i 67 y cant ym 1851. Efallai yr awgrym cyntaf o'r iaith yn newid i fod yn iaith leiafrifol ydy hyn. Ac erbyn canol y ganrif roedd rhai ardaloedd wedi'u Seisnigeiddio'n ddifrifol - er enghraifft Pontypŵl a Blaenafon lle'r oedd nifer uchel o bobl a oedd wedi dod o tu allan i Gymru (44 y cant a 35 y cant yn eu tro).

Ond wedi dweud hynny, daeth y rhan fwyaf o breswylwyr yr ardaloedd diwydiannol o Gymru - naill ai bobl a anwyd yn yr ardaloedd hyn neu bobl oedd wedi symud o Gymru wledig. Caniataodd y twf diwydiannol i Gymru gynnal mwy o bobl o lawer na'r hen economi amaethyddol, ac ar yr un pryd i'r Gymraeg datblygu'n iaith ddiwydiannol a threfol. Mae'r sefyllfa hon yn hollol wahanol i'r hyn a ddigwyddodd yn Iwerddon lle'r oedd colled enfawr o siaradwyr yr iaith Gwyddelig yn sgil Newyn Mawr 1845.

Nid yn unig roedd y nifer o siaradwyr Gymraeg yn cynyddu, ond hefyd roedden nhw'n dod yn well eu byd. O ganlyniad, roedd cynnydd mewn gweithgareddau a gynhaliwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Sefydlwyd llawer o gymdeithasau diwylliannol, a rhwng 1800 a 1850 cyhoeddwyd tua thair mil o lyfrau yng Nghymraeg. Roedd gan bob enwad crefyddol o leiaf un cylchgrawn misol Cymraeg.

Cychwynnwyd y papur newydd Cymraeg cyntaf - "Seren Gomer" - yn Abertawe ym 1814. Parhaodd am ddim ond blwyddyn, ond cafodd ei adfywio fel papur newydd pythefnosol ym 1818 ac wedyn misol ym 1820. "Yr Amserau", sefydlwyd yn Lerpwl ym 1843, oedd y papur newydd go iawn cyntaf Cymraeg. Ym 1859, cyfunodd â Baner Cymru, ac erbyn diwedd y ganrif roedd Baner ac Amserau Cymru (wedi'i chyhoeddi ddwywaith yr wythnos) yn hawlio 50,000 o ddarllenwyr.

Mae'r ddeunawfed ganrif wedi gweld adfywiad o eisteddfodau. Ar y dechrau, cystadlaethau tafarn swnllyd ac afreolaidd oedden nhw, ond mae'r eisteddfod yng Ngorwen ym 1789 yn cael ei hystyried fel yr eisteddfod fodern cyntaf. Daeth yr adfywiad i ben dros dro o achos y rhyfeloedd yn erbyn Napoleon, ond ail-ddechreuodd y mudiad eisteddfodol ym 1815. Rhwng 1815 ac 1834 cynhaliwyd cyfres o eisteddfodau taleithiol, gan gynnwys Eisteddfod

Gaerfyrddin ym 1819 pan gafodd seremoni "Gorsedd y Beirdd" ei chyflwyno. Fel gwelon ni mewn erthygl flaenorol, cynnyrch dychymyg ffrwythlon Iolo Morgannwg oedd y seremoni - ond serch hynny, cafodd ei dderbyn fel seremoni ddilys.

Yn barod erbyn 1834, roedd Arglwyddes Llanofer wedi cefnogi eisteddfodau taleithiol, a nawr o 1834 hyd at 1851 noddodd ddeg eisteddfod yn Y Fenni. Mae'r eisteddfodau hyn yn cael eu hystyried yn un o benodau mwyaf llachar yn stori'r eisteddfod - ond mae'n werth nodi i'r iaith Saesneg chwarae rhan amlwg ynddyn nhw. Ar y llaw arall, arweiniodd llwyddiant yr eisteddfodau taleithiol at sefydliad o eisteddfodau lleol mewn pentrefi ledled Cymru, a digwyddiadau hollol Gymraeg oedd y rhain.

Erbyn canol y ganrif, roedd y mudiad eisteddfodol wedi cipio dychymyg pobl Cymru i'r fath raddau roedd galw am eisteddfod genedlaethol flynyddol. Ac ym 1860, penderfynwyd sefydlu corff cenedlaethol "Yr Eisteddfod". Creodd y corff hwn yr Eisteddfod Genedlaethol swyddogol i'w chynnal yn flynyddol yn y De a'r Gogledd bob yn ail, a chynhaliwyd yr eisteddfod genedlaethol swyddogol gyntaf ym 1861 yn Aberdâr.

Ond roedd rhan gyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod o anniddigrwydd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru: gwrthdystiad Merthyr ym 1831; gwrthryfel y Siartwyr yng Nghasnewydd ym 1839; a therfysgoedd Merched Beca yng nghefn gwlad yn 1839-43. Mynegodd y papurau newydd Seisnig, gan gynnwys The Times, y farn taw diffyg addysg ymhlith y Cymru oedd yn bennaf gyfrifol am yr aflonyddwch cymdeithasol hwn - roedd y gred taw anwybodaeth oedd gwreiddyn drygau'r oes yn gyffredin yn ystod y cyfnod. Galwodd William Williams, AS Coventry, (ond yn wreiddiol o Lanpumsaint) ar y llywodraeth i ymchwilio i gyflwr addysg yng Nghymru ac "yn arbennig i'r modd y gallai'r dosbarth gweithiol gael gwybodaeth am yr iaith Saesneg".

O ganlyniad, sefydlwyd comisiwn ym 1846, a chyhoeddwyd ei adroddiad y flwyddyn ddilynol. O safbwynt addysgol, roedd yr adroddiad yn foddhaol achos roedd safon addysg yng Nghymru'n isel. Ond gwnaeth y tri

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

chomisiynydd Anglicanaidd di-Gymraeg sylwadau sarhaus ar yr iaith Gymraeg, anghydfurfiaeth, ac ar ffordd o fyw'r Cymry. O ganlyniad, daeth yr adroddiad i gael ei adnabod fel "Brad y Llyfrau Gleision", ac byddwn ni'n edrych ar effeithiau'r adroddiad dadleuol hwn yn yr erthygl nesaf.

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Crochendy Nantgarw

Adroddiad gan Nesta Humphreys

Efallai bod chi wedi gweld y crochenwaith go iawn - mae'r porslen yn wyn iawn ac mae'r lluniau a'r lliwiau yn hardd iawn. Mae rhai pobl wedi disgrifio'r porslen fel y gorau yn y byd a nawr mae'n hynod o brin ac yn ddud.

Ro'n ni'n lwcus iawn bod Dr Eurwyn Wiliam yn gallu siarad â ni am y gwaith yn Nantgarw. Yn ei amser mae wedi bod yn weithgar gyda'r Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Amgueddfa Genedlaethol Cymru ond erbyn hyn mae e'n Gadeirydd Yr Ymddiriedolaeth Crochendy Nantgarw.

Cafodd y Crochendy ei sefydlu gan William Billingsley yn 1813. Roedd e wedi gweithio i Grochendy yn Derby a hefyd yng Nghaerwrangon. Roedd e'n grochenydd ardderchog ac arbenigwr yn peintio rhyssynau. Rhwng 1813 a 1814 ac wedyn rhwng 1817 a 1820 roedd e wedi perffeithio ei rysât porslen i greu porslen unigryw a hardd. Yn anffodus doedd e ddim yn ddyn busnes da ac ar ôl problemau tanio dros y cyfnod a cholledion enfawr gadawodd e Nantgarw. Sut bynnag mae ei waith yn fyd enwog ac yn dal yn cael ei drysori.

Ar ôl i Billingsley adael rhedodd y crochendy gan y teulu Pardoe. Yn 1833 ail-agorodd y crochendy i wneud crochenwaith i'r cartref, pibelli clai a theils llawr. Ar un adeg ro'n nhw'n cynhyrchu 2000 o bibelli clai bob wythnos. Erbyn 1920 roedd sigarêts yn fwy poblogaidd na phibelli a chaeodd y crochendy er bod disgynyddion y teulu Pardoe yn parhau i fyw yn Nhŷ Nantgarw tan 1970.

Sefydlodd Yr Ymddiriedolaeth Crochendy Nantgarw yn 1990 i adfer a datblygu'r safle. Heddiw mae amgueddfa yno ac ystafell de. Maen nhw'n annog, cefnogi a hyrwyddo artistiaid

cyfoes sy'n gweithio gyda cherameg. Maen nhw'n cynhyrchu rhai crochenwaith yno ac yn cymryd comisiynau i wneud pethau arbennig. Hefyd mae dosbarthiadau ar gael ar gyfer oedolion a phlant.

Mae'n cymryd llawer o arian i gynnal y crochendy a'r cyfleusterau ac er bod nhw wedi cael grantiau, maen nhw'n dibynnu ar ymwelwyr. Wrth gwrs mae pethau wedi bod yn anodd iawn yn ystod y pandemig ond gobeithio bydd pethau yn gwella. Gwelwch ddolen isod am ymweliadau ac ati.

<http://nantgarwchinaworksmuseum.co.uk/>

Diolch yn fawr iawn i Eurwyn am ei sgwrs ddiddorol iawn a phob lwc i'r crochendy yn y dyfodol.

Ein digwyddiad nesa ydy:-

Nos Lun, 14 Chwefror ar Zoom am 7 30 yh – Y Cyfrwng Radio, Ei Hanes a'i Hanfod gan Non Vaughan-Williams

Mae Rhaglen 2022 ar gael ar Facebook.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com neu edrych ar ein tudalen Facebook.

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>

Nesta Humphreys
Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Dic Shonnery

In Claire Boot's article on page 4 you will have seen the word 'Esgob!' being used and perhaps thought it was a bit strange. Welsh people have always tried to find respectable ways of making certain exclamations. So you will come across words like Brensiach! Duwcs! Esgob! Esgob Annwyl! Esgob Dafydd! Israel Dafydd! They are all ways of avoiding using the Lord's name in vain but, at the same time having the same effect.

Very clever isn't it! There are no swear words in Welsh but that's not to say that the English words are never uttered!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

RHAGLEN 2022/ PROGRAMME **2022**

Sgyrsiau yn Gymraeg am hanes a diwylliant Cymreig ar gyfer Dysgwyr a phobl sy'n hollol rhugl.

Talks in Welsh about Welsh history and culture for learners and fluent speakers.

Bydd y sgyrsiau ar Zoom yn ystod 2022

14 CHWEFROR (Zoom – 7 30 yh)
Non Vaughan-Williams - Y Cyfrwng Radio, Ei Hanes a'i Hanfod

14 MAWRTH (Zoom – 7 30yh)
Huw Meredydd Roberts - Caffis Eidalaidd yng Nghymru

Pos Val **Gweld Geiriau**

S	T	B	Y	LL	E	M	O	DD	F
F	G	U	E	N	A	R	L	I	U
O	P	W	B	A	G	H	E	A	LL
N	Y	CH	O	M	W	L	N	L	C
D	B	E	R	O	I	E	A	B	R
A	I	C	E	FF	Y	L	L	E	O
C	O	F	A	I	S	U	W	O	TH
P	E	N	R	TH	F	I	B	I	E
CH	T	U	H	E	W	M	O	A	C
A	T	E	I	G	R	E	N	U	L

Allwch chi ddod o hyd i 11 anifail wedi'u cuddio yn y grid?

Mae'r geiriau yn rhedeg i bob cyfeiriad yn ôl ac ymlaen.

9 MAI (Ymweliad)

Athro Madeleine Gray - Ymweliad ag Eglwys Llanilltud Fawr

13 MEHEFIN (Ymweliad)

Bill Jones - Ymweliad â Phriordy Ewenni

12 MEDI (Zoom – 7 30yh)

Richard Gammon - William Randolph Hearst a Chastell St Donats

10 HYDREF (Zoom – 7 30yh)

Delyth Jenkins - Hanes y Delyn a Thaith ar Lwybr Arfordir gyda'i Thelyn

14 TACHWEDD (Zoom – 7 30yh)

Sian James - Tair Cymraes Mae Hanes Wedi Anghofio

Wedi anghofio pen-blwydd?

Yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod pen-blwydd eich chwaer yn agosáu ac, ar ôl chwilio ym mhob man does dim byd sy'n gwneud y tro. Dach chi mewn panig!

Os Cardiau Cymraeg dach chi angen beth am fynd yn syth at eu gwefan ardderchog

www.cardiaucymraeg.com

Mae cardiau yno ar gyfer bob achlysur ac maen nhw'n anhygoel o gyflym!

Cefnogwch y byd Gymraeg.



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes Mis Chwefror

Y De a'r Canolbarth

19 Chwefror Marina a Dociau Abertawe
Cylchdaith hamddenol tua 5.5 milltir yn dilyn llwybr yr arfordir o Neuadd y Ddinas i'r Marina a'r Dociau ac yn ôl. Cyfle i weld y trawsnewidiadau sydd wedi digwydd yn yr ardal hanesyddol yma. Mae'r llwybr yn gadarn ac yn wastad, felly yn addas i bawb o bob oedran. Mi fydd cyfle i ddal y bws yn ôl, os dymunir, o fan pellaf y daith

Man cyfarfod: Maes parcio y tu allan i brif fynedfa Neuadd y Ddinas (Guildhall) Abertawe, gyferbyn a Llys y Goron. SA1 4PE SS644925
Arweinydd: Eirian Davies

26 Chwefror Cefn Onn, Caerdydd

Ymweliad â Pharc Cefn Onn, cylchdaith wedyn yn cynnwys dringo'n raddol i Gefnffordd Cwm Rhymni (man uchaf 250m) gyda golygfeydd ysblennydd o'r ddinas. Tua 5 milltir.

Man cyfarfod: Maes Parcio Cefn Onn, Llysfaen, Caerdydd CF14 0UD. I'r rhai sydd am ddod ar y trên, mae Gorsaf Llysfaen rhyw 200 medr o Faes Parcio Cefn Onn. Trenau yn gadael Caerdydd Canolog bob 15 munud i Gaerffili, Bargod neu Rhymni (taith 15 munud). ST178836 Arweinydd: Alan Williams

Gwynedd a Môn

12 Chwefror

Llys Rhosyr ac Ynys Llanddwyn

Llys Rhosyr Gwarchodfa Natur Niwbwrch, Ynys Llanddwyn. Llwybrau da. Gwastad 6 milltir (posib cwtogi)

Man cyfarfod: Maes Parcio ger Rhos Ddu, SH426647 Arweinydd: Gareth Tilsley

19 Chwefror Ardal Dyffryn Nantlle

Manylion i ddilyn

Arweinydd: John Dilwyn Williams

26 Chwefror Ardal Bethesda

Manylion i ddilyn

Arweinydd Janet Buckles

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gwynedd-a-mon-hydref-a-gaeaf-2020/>

Gogledd Dwyrain

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddau-gogledd-ddwyrain-hydref-2020/>

Geirfa

Rholiau selsig a gwin cynnes

Ffug enw - false name
Siop elusen - charity shop
Mynd i ryfela - to go to war
Pori - to graze
Rhyfel gartref - civil war
Anochel - inevitable
Byddigion - aristocracy
Awyddus - eager
Arweinydd - leader
Chwarel - quarry
Coedlan - small wood
Cerrig beddau - gravestones
Ffordd y porthmyn - drover's road
Caredigrwydd - kindness
Copa(on) - peak(s)
Sgwd yr Eira - a waterfall in the area
Troellog - winding
Ysblennydd - splendid

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Digwyddiadau - events

Rholiau selsig - sausage rolls

Gwin cynnes - mulled wine

Clud - cosy

Edifaru - to regret

Croeso nol pel droed

Cynulleidfa - spectators

Crafangau - claws

Clonc penelin - elbow bump

Rhwystredig - frustrating

Cyfartal - equal

Ychydig a gwyddwn - little did we know

Di-rif - no end

Buddugoliaeth - victory

Deiliad tocyn tymor - season ticket holder

Gliniadur - laptop

Dirgrynu - to vibrate

Gwyrth - miracle

Gynghrair - league

Rownd gynderfynol - semi final

Adolygiad Ffilm

Seiliedig ar - based on

Cyfleusterau - conveniences

Gweision - servants

Morwynion - maids

Gweision fferm - farm hands

Ranshwr bonheddig - gentleman farmer

Cyfrinachau hanesyddol - historical secrets

Syfrdanol - stunning

Trac sain - soundtrack

Atgofus - memorable

Argymell - to recommend

Ewyllys - will

Clwm â'i gilydd - tied together

Dylanwad - influence

Celwyddau - lies

Elfennau cyffredin - common elements

Di-nod - of little importance

Teulu

Cenfigennus - jealous

Gwallgof - mad

Yn amyneddgar - patiently

Byth yn rhy Hwyr

Profi - to prove

Yn fy ugeiniau - in my twenties

Ystyried - to consider

Iaith yr aelwyd - language of home

Harri'r Wythfed - Henry XIII

Ymchwilio - to research, look into

Ymennydd - brain

Gerllaw - nearby

Anadnabyddus - unrecognisable

Llenyddiaeth - literature

Cerddoriaeth - music

Difaru - to regret

Annog - to urge

Blodau'r Flwyddyn Newydd

Llywydd - president

Nodi - to note

Gweddillion - remains

Gwaith ymchwil - research

Bob yn ail - every other

Moryd - estuary

Ochr ogleddol - the northern side

Byslymu - bubbling (up)

Greigiau calchfaen - limestone rocks

Gwaeth i mi heb - I might as well

Cyflwr y wyneb - state of the surface

Morfa heli - salt flats

Morglawdd - sea wall

Melyn yr Ŷd - corn marigold

Llygad y dydd - daisy

Bae'r Tri Chlogwyn - Three Cliffs Bay

Dirywio - to deteriorate

Dant y llew - dandelion

Cymryd yn ganiataol - to take for granted

Yn yr Ysbyty

Damwain difrifol - serious accident

Achosion brys - emergencies

Cytûn - agreeable

Gweithle dwyieithog - bilingual workplace

Adferiad - recovery

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Hanes y Gymraeg

Yn bennaf - mainly

Gwledig - rural

Gweithfeydd haearn - ironworks

Trigolion - populace

Diwydiant copr - copper industry

Chwyldro diwydiannol - industrial revolution

Heidiau - swarms

Amaethyddol - agricultural

Cynyddu - to increase

Awgrym - indication

Iaith leiafrifol - minority language

Yn sgil - as a result of

Newyn mawr - the great famine

Gweithgareddau - activities

Enwad crefyddol - religious denomination

Papur newydd - newspaper

Cyfuno - merge

Afreolaidd - unruly

Ystyried - to consider

Dychymyg ffrwythlon - fertile imagination

Taleithiol - provincial

Anniddigrwydd - uneasiness

Gwrthdystiad - protest

Sarhaus - offensive

Anghyddfurfiaeth - non-conformist

Crochendy Nantgarw

Crochenwaith - pottery

Porslen - porcelain

Caerwrangon - Worcester

Tanio - to fire

Colledion enfawr - huge losses

Pibelli clai - clay pipes

Amgueddfa - museum

Cyfleusterau - amenities